



DAN EMBARGO TAN 12pm DYDD MERCHER MAI 18FED

DATGANIAD I'R WASG:

LANSIO GŴYL FACH Y FRO 2016!

Mae Menter Bro Morgannwg yn falch i gyhoeddi y bydd Gŵyl Fach y Fro yn dychwelyd unwaith eto i Ynys y Barri eleni – ar ddydd Sadwrn Mehefin 18fed. Yn dilyn sefydlu'r ŵyl y llynedd, a gyda diolch i gefnogaeth parhaus gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Bro Morgannwg, fe fydd yr ŵyl undydd yma'n rhan bwysig o raglen ddigwyddiadau haf y Cyngor eto eleni.

Yn perfformio yn Gŵyl Fach y Fro 2016 bydd Sŵnami, Sorela, Meic Stevens, Wonderbrass, Hanna Morgan (cantores lleol a chyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Bro Morgannwg) a Lost in Chemistry (band ifanc o'r Barri, ac enillwyr Brwydr y Bandiau C2/Maes B 2015). Bydd cannoedd o blant o ysgolion Cymraeg y Sir hefyd yn camu i'r llwyfan i berfformio yn ystod y diwrnod.

Mae nifer o elfennau newydd wedi eu hychwanegu at yr ŵyl eleni, ac un o'r datblygiadau cyffrous ar gyfer 2016 bydd stondinau cynnyrch a chrefftau Cymreig gan ddarparwyr lleol, bydd wedi eu lleoli yn yr hytiau traeth trawiadol ar y promenâd.

Bydd hefyd adloniant stryd a gweithdai gyda'r perfformwyr syrcas NoFit State; gweithdai ac arddangosfeydd Cardiff Arts Collective; Sioe, Amser Stori a Helfa Drysor gyda chyflwynwyr a chymeriadau Cyw; bŵth lluniau GuestWho; a gweithgareddau amrywiol gan bartneriaid Cymraeg yr ardal gan gynnwys Canolfan Cymraeg Bro Morgannwg, Mudiad Meithrin ac Adran Chwaraeon yr Urdd.

Mae'r datblygiadau newydd hefyd yn cynnwys bar, gyda chwrw arbennig yn cael ei greu ym mragdy lleol Tomos & Lilford i ddathlu'r digwyddiad, a bydd Ffwrnes Pizza a Slow Pig yn arlwygo'r ŵyl.

Elfen hollbwysig i Gŵyl Fach y Fro yw ei fod yn ddigwyddiad rhad ac am ddim, mewn lleoliad unigryw, cyhoeddus a phoblogaidd ar Ynys y Barri, gan ei wneud yn ddigwyddiad hynod hygyrch i bawb; boed yn siaradwr Cymraeg, neu'n cael eu profiad cyntaf o'r iaith a'r diwylliant.

Dywedodd Robert Thomas, Rheolwr-gyfarwyddwr Cyngor Bro Morgannwg,

Yn dilyn ymlaen o lwyddiant yr ŵyl llynedd, rydym yn falch iawn i gynnig ein cefnogaeth barhaus i Fenter Bro Morgannwg i gynnal Gŵyl Fach y Fro ar Ynys y Barri unwaith eto eleni. Rydym yn ystyried yr ŵyl yn rhan annatod o'n rhaglen ddigwyddiadau yr haf, ac yn edrych ymlaen i gefnogi y trefnwyr unwaith eto i godi proffil yr iaith Gymraeg trwy gerddoriaeth, dawns ac adloniant yn yr ŵyl.

Dywedodd Ben Thomas, aelod o'r band Lost in Chemistry,

Mae Cystadleuaeth Brwydr y Bandiau 2015 wedi bod o help mawr i ni i dorri mewn i'r Sîn Roc Gymraeg – fel rhan o'r wobwr rydym wedi cael profiadau gwych o berfformio ar Lwyfan y Maes ac yn Maes B llynedd yn ogystal â gweithio'n agos gyda'n mentor Mei Gwynedd i recordio mwy o ganeuon Cymraeg i ychwanegu at ein rhaglen. Mae'n gret gweld bod gŵyl gerddoriaeth Gymraeg nawr wedi cael ei sefydlu ym Mro Morgannwg, ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr i berfformio ar lannau Ynys y Barri fis Mehefin!

Bydd modd i ymwelwyr wirio'r rhaglen a'r wybodaeth ddiweddaraf am Gŵyl Fach y Fro ar wefan, tudalen Facebook a Twitter Menter Bro Morgannwg:

www.menterbromorgannwg.cymru

Facebook: Menter Bro Morgannwg

Twitter: @MIBroMorgannwg

Diwedd

Nodiadau

- *Gŵyl Fach y Fro yw'r ŵyl a sefydlwyd gan Menter Bro Morgannwg yn 2015 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg.*
- *Prif nod y Fenter yw i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol ym Mro Morgannwg, ac i gynnig a chreu cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i furiau'r ysgol ac oriau gwaith.*
- *Bydd yr ŵyl yn cael ei lansio'n swyddogol ar-lein am 12pm ar ddydd Mercher y 18fed o Fai 2016.*



UNDER EMBARGO UNTIL 12pm WEDNESDAY MAY 18TH

PRESS RELEASE:

LAUNCHING GŴYL FACH Y FRO 2016!

Menter Bro Morgannwg is pleased to announce that Gŵyl Fach y Fro will return once again this year to Barry Island – on Saturday June 18th. This annual Welsh festival was established by Menter Bro Morgannwg last year, to celebrate and raise the profile of the Welsh language in the Vale. With thanks to Welsh Government, Wales Arts Council and the Vale of Glamorgan Council for their continued support, this one-day festival will once again be an important part of the Council's summer events programme.

Performing in Gŵyl Fach y Fro 2016 will be Sŵnami, Sorela, Meic Stevens, Wonderbrass, Hanna Morgan (local singer-songwriter who is also an ex-pupil of Ysgol Gyfun Bro Morgannwg) and Lost in Chemistry (local band from Barry, and winners of the National Eisteddfod Battle of the Bands 2015). Hundreds of schoolchildren from the Vale's Welsh-medium schools will also take to the stage to perform during the day.

There are lots of new elements to this year's festival, and one of the exciting developments for 2016 will be stalls selling Welsh local produce and gifts, which will be located in the stunning beach huts on the promenade.

There will also be street entertainment and workshops with NoFit State circus; Cardiff Arts Collective workshops and exhibitions; A show, storytime, and treasure hunt with popular presenters and characters from S4C's Cyw; GuestWho photo booth; and various activities organised Welsh language partners in the Vale including Welsh for Adults, Mudiad Meithrin and the Urdd Sport Department.

The new developments will also include a bar, which will stock a special ale made by local brewers Tomos & Lilford to celebrate the event, and Ffwrnes Pizza and Slow Pig will cater.

An important element of Gŵyl Fach y Fro is the fact that entry is completely free, in this unique, public and popular location on Barry Island, which makes the event completely accessible to all; Welsh speakers, Welsh learners, or those who wish to experience the Welsh language and its culture for the first time.

Robert Thomas, Vale of Glamorgan Council's Chief Executive, said,

Following on from the success of last year's festival, we are delighted to offer our continued support to Menter Bro Morgannwg in hosting Gŵyl Fach Y Fro at Barry Island once again this year. We consider the festival integral to our summer events programme, and are looking forward to working with the organisers once again to support them in raising the profile of Welsh language through music, dance and entertainment at the festival.

Ben Thomas, a member of Lost in Chemistry, said,

The Battle of the Bands 2015 Competition has given us valuable experiences and assistance to break into the Welsh-language Music Scene – the prize included an opportunity to perform in the National Eisteddfod and Maes B, as well as to work closely with our mentor Mei Gwynedd to record more Welsh songs to add to our repertoire. It's great that an annual Welsh music festival has now been established in the Vale, and we're very much looking forward to perform on Barry Island in June!

Visitors will be able to view the programme in full as well as receive the latest news about Gŵyl Fach y Fro from Menter Bro Morgannwg's website, Facebook and Twitter pages:

www.menterbromorgannwg.cymru

Facebook: Menter Bro Morgannwg

Twitter: @MIBroMorgannwg

End

Menter Bro Morgannwg/Gŵyl Fach y Fro Fast Facts

- *Gŵyl Fach y Fro is a festival established in 2015 by the Vale's Welsh language initiative, Menter Bro Morgannwg, to celebrate and raise the profile of the Welsh language across the Vale.*
- *Menter Bro Morgannwg's primary aim is to increase the social use of the Welsh language in the Vale, and create opportunities for the County's people to use the language outside school and work hours, and holding this all-inclusive event on the shores of Barry Island, which is such a popular attraction during the summer especially, is a very effective way of raising the profile of the Welsh language amongst citizens from the Vale and afar.*
- *Gŵyl Fach y Fro means 'Little Festival of the Vale' in Welsh.*
- *The festival will be officially launched online at 12pm on Wednesday 18th of May 2016.*